# CYSYLLTIAD EFYRNWY FRANKTON

## Yn cysylltu ynni adnewyddadwy i gartrefi a busnesau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

**Cael dweud eich dweud ar gynlluniau am gysylltiad ynni adnewyddadwy newydd**

**Ymgynghoriad ar agor: 6 Medi – 18 Hydref 2023**

Mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi gosod targedau clir ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan helpu i atal newid hinsawdd sy'n bygwth ein bywoliaeth, ein tirweddau a'n bywyd gwyllt.

Yng Nghanolbarth Cymru, nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i gysylltu ynni adnewyddadwy newydd i gartrefi a busnesau. I roi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil, mae angen seilwaith newydd arnom yn gyflym.

I ddiwallu'r angen hwn, mae Green GEN Cymru yn argymell is-orsaf a llinell drydan newydd drwy Gwm Efyrnwy i gysylltu ynni glân, gwyrdd i'r rhwydwaith trydan presennol ger Frankton Isaf, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Rydym yn argymell defnyddio peilonau dur delltog 27 metr o uchder. Mae'r rhain yn sylweddol fyrrach ac yn llai swmpus na'r peilonau a gafodd eu hargymell yn flaenorol yn yr ardal gan y Grid Cenedlaethol – mae unrhyw effeithiau gweledol yn sylweddol llai o'r herwydd.

Rydym wedi nodi ardal ar gyfer yr is-orsaf a'r llwybr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y cysylltiad yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys effeithiau posib ar y dirwedd, yr amgylchedd a chymunedau. Mae mwy o wybodaeth am hyn yn llyfryn ymgynghori cam un a'n dogfen llwybro ac ymgynghori, sydd ar gael ar y wefan **www.greengenvyrnwyfrankton.com**

Rydym yn gwybod bod gan bobl farn wahanol ar seilwaith newydd, ac rydym yn cydnabod bod gan bobl bryderon am beilonau yn y dirwedd. Mae angen cydbwysedd gofalus i ddarparu'r seilwaith sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Rydym yn canolbwyntio ar darfu cyn lleied â phosib ar y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau hamddena wrth ymyl ein cynlluniau ac rydym wedi ymrwymo i warchod yr amgylchedd yn y cyffiniau.

Mae adborth sefydliadau arbenigol a chymunedau yn rhan allweddol o'r ffordd y byddwn yn datblygu'r prosiect. Gall eich gwybodaeth leol ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau a buddion posibl nad ydym efallai wedi'u hystyried yn ein gwaith hyd yma, ac i lywio ein gwaith yn y dyfodol.



GREEN GEN CYMRU

## Ynglŷn â chi

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Teitl: | Enw: | | | | |
| Grŵp oedran: | ☐ 18 ac iau | ☐ 19 – 34 | ☐ 35 – 50 | ☐ 51 – 65 | ☐ Over 65 |
| Cyfeiriad: | | | | | |
| | | | | | |
| Cod post: | Cyfeiriad e-bost: | | | | |
| Ydych chi eisiau derbyn diweddariadau e-bost am y prosiect? | | | | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad? | | | | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Os ydych, pa sefydliad: | | | | | |
| A ydych chi'n berchen ar dir neu'n meddiannu tir o fewn yr ardal rydym wedi'i nodi ar gyfer coridor y llwybr arfaethedig? | | | | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |
| Os ydych, a yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi? | | | | ☐ Ydw | ☐ Nac ydw |

## Sut byddwn yn defnyddio eich adborth?

Byddwn yn defnyddio eich adborth i adolygu'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud hyd yma ac i lywio ein gwaith yn y dyfodol. Bydd ein camau nesaf yn cynnwys opsiynau llwybro manylach a nodi lleoliadau ar gyfer peilonau a seilwaith ychwanegol.

## Rhowch adborth erbyn 23:59 ar 18 Hydref 2023

Ffurflen adborth electronig:
**www.greengenvrnwyfrankton.com**

E-bostiwch ni:
**info@greengen vyrnwyfrankton.com**

Adborth copi caled:
**FREEPOST Green GEN V2F**

GREEN GEN CYMRU

# SAFLE A LLWYBR YR IS-ORSAF ARFAETHEDIG

**C1** **A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol am y llwybr rydym yn ei ffafrio ar gyfer cysylltiad Efyrnwy i Frankton Isaf?**

**C2** **Yn eich barn chi, a oes unrhyw ffactorau sydd heb eu hystyried wrth nodi'r llwybr sy'n cael ei ffafrio?**

# ADRANNAU SAFLE A LLWYBR YR IS-ORSAF ARFAETHEDIG

Rydym wedi trefnu'r llwybr yn bum rhan er mwyn rhoi cyfle am sylwadau mwy penodol.

Nodwch at ba adran, neu adrannau, rydych yn cyfeirio atynt yn eich ymateb (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

| Adran 1 | Adran 2 | Adran 3 | Adran 4 | Adran 5 |
|---|---|---|---|---|
| Cefn Coch i Langynyw (gan gynnwys is-orsaf gasglu a chompownd lle caiff pennau ceblau eu selio) | Llangynyw i Feifod | Meifod i Lansantffraid-ym-Mechain | Llansantffraid-ym-Mechain i Lanymynech | Llanymynech i Frankton Isaf |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## C3 A oes unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried wrth adolygu neu ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer pob un o'r adrannau uchod?

# YNGLŶN Â'R YMGYNGHORIAD

**C4** **Sut wnaethoch chi glywed am yr ymgynghoriad? (ticiwch fel y bo'n briodol)**

- ☐ Gwybodaeth drwy'r post
- ☐ Wedi cael gwybod gan rywun arall
- ☐ Yn y newyddion neu sylw ar y cyfryngau
- ☐ Man gwybodaeth lleol
- ☐ Cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**C5** **A oedd y wybodaeth a ddarparwyd gennym yn ystod yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth?**

**C6** **A oes gennych unrhyw sylwadau am y profiad o ymgynghori?**

## CRONFA BUDD CYMUNEDOL

Bydd ein cronfa budd cymunedol yn buddsoddi'n uniongyrchol yn y cymunedau y bydd y cynlluniau hyn yn effeithio arnynt.

**C7** **Ble hoffech chi weld y Gronfa Budd Cymunedol yn cael ei buddsoddi yn eich ardal chi?**

# NEWID HINSAWDD A'N CYFLENWADAU TRYDAN

**C8** **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol (mae'r adran hon yn ddewisol)**

| | Ticiwch |
|---|---|
| Mae gan ynni adnewyddadwy rôl bwysig yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd | ☐ Cytuno'n gryf<br>☐ Cytuno<br>☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>☐ Anghytuno<br>☐ Anghytuno'n gryf |
| Byddai cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn ein gwneud yn llai dibynnol ar ynni sydd wedi'i fewnforio ac yn helpu i sicrhau cyflenwadau ynni diogel i Gymru a Lloegr yn y dyfodol. | ☐ Cytuno'n gryf<br>☐ Cytuno<br>☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>☐ Anghytuno<br>☐ Anghytuno'n gryf |
| Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru a Lloegr yn cael eu llesteirio gan ddiffyg seilwaith grid i'w cysylltu â rhwydweithiau pŵer. | ☐ Cytuno'n gryf<br>☐ Cytuno<br>☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>☐ Anghytuno<br>☐ Anghytuno'n gryf |
| Rydw i'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy yn fy ardal leol | ☐ Cytuno'n gryf<br>☐ Cytuno<br>☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno<br>☐ Anghytuno<br>☐ Anghytuno'n gryf |

Diolch am roi adborth ar ein cynlluniau ar gyfer cysylltiad Efyrnwy Frankton.

Byddwn yn ystyried eich adborth yn ofalus ac yn ei ddefnyddio i adolygu'r gwaith rydym wedi'i gwblhau hyd yma, a'n cynlluniau prosiect wrth symud ymlaen.

## Hysbysiad preifatrwydd

Mae **Green GEN Cymru** (cwmni o fewn Grŵp Bute Energy) wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Pryd bynnag y byddwch yn darparu gwybodaeth o'r fath, mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i'w defnyddio yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn y DU (GDPR).

**Sut bydd Green GEN Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn amdanoch chi?**
Byddwn yn defnyddio'ch data personol a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn at ein dibenion busnes cyfreithlon, gan gynnwys

- Dadansoddi eich adborth i'r ymgynghoriad
- Cynhyrchu Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio, yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ymatebion (ni chaiff unigolion eu hadnabod yn yr Adroddiad)
- Ysgrifennu atoch gyda diweddariadau am ganlyniadau'r ymgynghoriad a datblygiadau eraill os ydych wedi dewis derbyn y diweddariadau hyn.
- Cadw cofnodion cyfoes o'n deunydd cyfathrebu gydag unigolion a sefydliadau.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei chynnwys ar y ffurflen hon yn cael ei thrin a'i defnyddio gan y derbynwyr canlynol (neu bydd ar gael iddynt) i gofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth a dderbyniwn:

- Green GEN Cymru (cwmni o fewn Grŵp Bute Energy)
- Bute Energy (darparwr gwasanaethau datblygu i Green GEN Cymru)
- Yr Arolygiaeth Gynllunio (a fydd yn ystyried ein cais am ganiatâd i adeiladu Green GEN Efyrnwy Frankton – bydd unrhyw fanylion a gyhoeddir fel rhan o'r broses hon yn ddienw)
- Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) (a fydd yn ystyried ein cais am ganiatâd i adeiladu Parc Ynni Llyn Lort – bydd unrhyw fanylion a gyhoeddir fel rhan o'r broses hon yn ddienw)
- Gweinidogion Cymru
- Ein cynghorwyr cyfreithiol
- Ymgynghorwyr sy'n gweithio ar brosiectau Llyn Lort a Green GEN Efyrnwy Frankton Isaf.

**Pa hawliau sydd gennyf dros fy nata personol?**
O dan delerau GDPR y DU, mae gennych hawliau penodol o ran sut mae Green GEN Cymru yn cadw ac yn defnyddio eich data personol.

**info@greengen vyrnwyfrankton.com**

**0800 915 3590**

**FREEPOST Green GEN Cymru V2F**

Rydym wedi defnyddio ffynonellau cynaliadwy i gynhyrchu'r ffurflen adborth hon.

GREEN GEN CYMRU